**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/MD/1030/13

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29ain Hydref 2013

Annwyl David

**Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 23 Hydref, cytunais i anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyn imi ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 7 Tachwedd 2013, roeddwn o'r farn y byddai o gymorth imi ymateb i rai o'r materion allweddol sydd eisoes wedi codi yn y cyfarfodydd llawn ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig i'r Bil, craffu ar gynlluniau'r BILI, a thryloywder.

Dywedais yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 23 Hydref fod y Llywodraeth yn bwriadu gosod dau welliant: un yn ymdrin â mater goddefiannau a leisiwyd gan Aelodau yn ystod Cyfnod 1, a gwelliant arall o natur dechnegol yn ymwneud â diffinio gwariant. Mae'r gwelliant arfaethedig ar oddefiannau yn ategu prif ddiben y Bil, sef cefnogi hyblygrwydd ariannol cynlluniedig, drwy ymdrin â hyblygrwydd ariannol heb ei gynllunio neu ddiwedd blwyddyn.

Gyda golwg ar bwerau benthyca, fel y crybwyllais yn y Pwyllgor, roedd y ffaith fod cwmpas y polisi i gyflwyno rhagor o hyblygrwydd ariannol eisoes wedi'i ystyried yn ategu'r penderfyniad i gyflwyno'r Bil drwy'r weithdrefn llwybr cyflym. Roedd hyn yn cynnwys y BILI, rhanddeiliaid o fewn y GIG a rhwydwaith ehangach o randdeiliaid. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid wedi argymell y dylai'r BILI gael hyblygrwydd ariannol. Bu Swyddfa Archwilio Cymru a'r BILI ynghlwm â ddatblygu'r Bil, ond ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Byddai cyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys pwerau benthyca yn ymestyn cwmpas y polisi (a allai fod yn annerbyniadwy yn ôl Rheol Sefydlog 26.61 y Cynulliad). Gallai hynny yn ei dro danseilio'r sail ar gyfer rhoi'r Bil hwn ar y llwybr cyflym. Er fy mod yn fodlon ystyried cynigion i'r BILl gael pwerau benthyca, fel eu bod yn gyson ag Ymddiriedolaethau'r GIG, dylid ystyried y defnydd o bwerau benthyca fel rhan o ddeddfwriaeth bosibl ar iechyd yn y dyfodol, yn ystod Tymor nesaf y Cynulliad.

Rwy'n ymwybodol o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau sy'n ymwneud â lefel y craffu ar gyllidebau tair blynedd, pe byddai'r cyllidebau hynny ar gael i'r Byrddau Iechyd Lleol fel canlyniad i weithredu'r Bil hwn, ac rwy wedi ystyried y pwyntiau hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig pwysleisio y bydd angen i'r BILl ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gan ddefnyddio gweithdrefnau cadarn ac agored. Bydd hynny'n arwain at bapur ar eu Cynlluniau i'w gymeradwyo yn ystod rhan gyhoeddus cyfarfodydd llawn y Byrddau. Bydd y papurau hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefannau'r Byrddau, ac fel canlyniad bydd holl gynigion y Byrddau unigol ar gael i Aelodau'r Cynulliad, ac i eraill, gael craffu arnynt. Fel y gwyddoch, bydd rhaid i unrhyw hyblygrwydd a allai ddeillio o weithredu'r Bil gael ei gytuno gan fy Adran. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynlluniau'r BILl, unwaith iddynt fod drwy gylch craffu Llywodraeth Cymru. Bydd y datganiad hwnnw'n pennu faint o hyblygrwydd a gaiff ei roi yn achos y BILl unigol. Yn ystod cyfnod cynnar unrhyw drefniant newydd, hoffwn hefyd gyhoeddi gwybodaeth reolaidd sy'n deillio o'r trefniadau rheoli mewnol sydd bellach yn bodoli i fonitro perfformiad y BILl. Derbyniodd y trefniadau hynny sylw cadarnhaol yn yr arolwg ddiweddaraf o gyllid GIG Cymru a gafodd ei gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr wybodaeth honno'n caniatáu i Aelodau, ac i eraill, graffu'n well ar y system newydd, wrth iddi gael ei sefydlu. Ond wrth gwrs, gwasanaeth seneddol y Cynulliad a'i Bwyllgorau sydd â'r hawl i wneud pa drefniadau bynnag y teimlant sydd yn angenrheidiol ac yn ymarferol wrth arolygu unrhyw agwedd ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pe câi unrhyw graffu ychwanegol ei wneud fel canlyniad i weithredu'r Bil hwn, byddwn yn sicrhau bod uwch-swyddogion fy Adran ar gael i gynorthwyo yn y broses honno. Heb leihau effaith y sefyllfa sylfaenol, sef bod y BILl yn atebol i mi, a'm bod innau fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol i'r Cynulliad, hoffwn hefyd weld uwch-swyddogion y BILl yn ymwneud â'r trefniadau craffu, lle y bo hynny'n briodol.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn o gymorth ichi, ac edrychaf ymlaen at drafod y materion a dynnwyd i'ch sylw yn fwy manwl yn ystod Cyfnod 2.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services